



Hoffwn estyn croeso cynnes i chi a'r holl ddisgyblion yn ôl i'r ysgol y tymor hwn yn dilyn gwyliau'r haf. Dyma ddiweddariadau cyfredol yr ysgol.

### **Dyddiadau ar gyfer y flwyddyn**

Gweler y calendr isod am ddyddiadau a gweithgareddau eleni – gallai'r rhain newid oherwydd amgylchiadau neu dywydd annisgwyl. Byddwn yn ychwanegu rhagor o weithgareddau, digwyddiadau a theithiau ysgol wrth i'r flwyddyn fynd ymlaen, gan gynnwys cyfleoedd ychwanegol i'ch gwahodd i'r ysgol i weld y gweithgareddau gwych y mae'r plant yn eu gwneud.

### **Noson Agored! 'Cwrdd a'r Athro – Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6**

Ar y calendr fe welwch Noson Agored i rieni ar Ddydd Llun Medi 26<sup>ain</sup>. Hoffem wahodd rhieni / gofalwyr i'r ysgol rhwng 4.00 a 5.30yp i: gwrdd ag athro dosbarth eich plentyn, ymweld â'u dosbarth ac i dderbyn gwybodaeth berthnasol am y flwyddyn academaidd hon. Nid oes angen cadw lle, dewch draw. Bydd dau gyflwyniad byr gan yr athrawon dosbarth yn y dosbarthiadau am 4yp a 5yp. Bydd hyn yn caniatáu i rieni â mwy nag un plentyn fynychu mwy nag un cyflwyniad dosbarth neu fynychu'r un olaf oherwydd ymrwymadau gwaith. Os na allwch fynychu, bydd yr athro dosbarth yn anfon unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau a roddwyd yn ystod y noson agored ymlaen. Bydd lluniaeth ar gael yn neuadd yr ysgol lle cewch gyfle i gwrdd a chymdeithasu gyda rhieni eraill, rhai o'r staff bugeiliol a llywodraethwyr.

### **Gwisg Ysgol**

Mae ein gwisg ysgol yn cynnwys crys polo coch, cardigan/siwmpwr werdd a throwsus/sgert/teits llwyd. Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion wisgo esgidiau / trainers tywyll / du (dim trainers lliw llachar). Gall disgyblion wisgo gwisg Addysg Gorfforol i'r ysgol ar eu diwrnodau Addysg Gorfforol penodedig a gofynnwn i'r rhain fod yn lliwiau gwisg Addysg Gorfforol yr ysgol sef top gwyn a gwaelod tywyll. Sylwch nad yw logo'r ysgol yn orfodol ar unrhyw eitemau gwisg ysgol. Mae gennym hefyd wisg ysgol rad ac am ddim sydd mewn cyflwr da – dewch i bori drwy'r rheiliau ym mhrif Dderbynfa'r ysgol a chymerwch beth sydd ei angen arnoch.

### **Ychydig o nodiadau atgoffa ar ddechrau tymor:**

- Sicrhewch fod gennym y rhifau ffôn diweddaraf (cartref a symudol), cyfeiriadau a gwybodaeth – os bu unrhyw newidiadau dros yr haf i gysylltiadau eich plentyn yn ein cronfa ddata ysgol, anfonwch neu e-bostiwch y manylion newydd / newidiadau i'r swyddfa cyn gynted â phosibl yr wythnos hon. Sicrhewch fod o leiaf un cyswllt rhestredig ar gael yn ystod y diwrnod ysgol ac ar gyfer sefyllfaoedd brys.
- Mae ein darpariaeth clwb brecwast (a weithredir gan ALI Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer pob oed ac eithrio Meithrin) yn cynnig gwasanaeth gollwng rhwng 8:10 a 8:30yb trwy brif fynedfa'r ysgol. Siaradwch â'n tîm gweinyddol cyfeillgar os hoffech holi am y clwb brecwast.
- Mae gatiâu'r ysgol yn agor yn y bore am 8:55yb. Ysgol yn cychwyn yn brydlon am 9.00yb ac yn gorffen am 3.30yp.
- Os oes unrhyw newidiadau i drefniadau diwedd dydd, rhowch wybod i ni trwy lythyr neu e-bost. Mewn argyfwng, a fydddechystal â ffonio swyddfa'r ysgol cyn 2.30yp gan sicrhau eich bod yn siarad ag aelod o staff a pheidio â gadael neges llais oherwydd efallai na fydd yn dod i law mewn da bryd. Mae'r ffôn yn brysur iawn yr adeg hon o'r dydd a bydd ein staff yn ateb eich galwad cyn gynted ag y bo modd. Bydd gatiâu ein hysgol yn agor am 3.15yp er mwyn caniatáu mynediad i rieni ar gyfer casgliad diwedd dydd.
- Mae ein clwb ar ôl ysgol yn cael ei redeg gan Fenter Bro Ogwr a gellir cysylltu â Menter ar 01656 732200.
- Os yw eich plentyn yn anhwylyd, cysylltwch â'r ysgol a gadewch neges ar y llinell absenoldeb cyn 9.00yb ar bob diwrnod o salwch yn nodi natur a rheswm penodol yr absenoldeb. Cysylltir â phob aelod absennol yn ddyddiol i ofyn am reswm dros absenoldeb, fel rhan o'n gweithdrefnau diogelu. Mae'n bosibl y bydd methiant i adrodd neu ymateb i alwadau/negeseuon yn cael ei amlygu i'n cydweithwyr yn yr awdurdod lleol fel rhan o'n gweithdrefnau diogelu cynyddol.

Os oes angen unrhyw gymorth, boed yn addysgiadol neu'n fugeiliol, mae croeso i chi anfon e-bost at swyddfa'r ysgol ar [admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru](mailto:admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru). Sylwch fod yr awdurdod lleol wedi dileu hen gyfeiriadau e-bost yr ysgol sy'n gorffen gyda [bridgend.gov.uk](http://bridgend.gov.uk) ac nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw e-byst a anfonir i'r hen gyfeiriadau e-bost, felly gofynnwn yn garedig i chi ddiweddarau eich systemau post i ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost newydd hwn.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Sharon Jayne  
Pennaeth



# Calendr 2022/23 Calendar (dyddiad 07.09.22)



## Medi 2022

- 5<sup>ed</sup> Dechrau Tymor / Diwrnod MHS  
26<sup>ain</sup> Noson Agored – Cwrdd a'r Athro (Derbyn hyd at Flwyddyn 6)  
29<sup>ain</sup> Bore Coffi Macmillan. Cefnogi a chymdeithasu dros banded a chacen (9:30-11:30yb). Manylion i ddilyn!  
30<sup>ain</sup> Diwrnod HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion ar gyfer hyfforddiant a datblygiad staff).

## Hydref 2022

- 6<sup>ed</sup> Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 yn YGG Llangynwyd / Noson Agored YGG Llangynwyd. Manylion i ddilyn.  
13<sup>eg</sup> Diwrnod Lluniau Ysgol – lluniau unigol a brodyr/chwiorydd. Gwisg ysgol llawn, dim cit Ymarfer Corff.  
14<sup>eg</sup> Diwrnod 'Shwmae Shwmae' – plant i wisgo coch, gwyn a gwyrdd. Gweithgareddau ar lawr Dosbarth.  
17<sup>eg</sup> Wythnos Cynhaeaf Casgliad Banc Bwyd – rhestr a manylion i ddilyn.  
24<sup>ain</sup> + 26<sup>ain</sup> Nosweithiau Rhieni ar-lein. Manylion i ddilyn.  
31<sup>ain</sup> Hanner Tymor (31/10/22 – 04/11/22)

## Tachwedd 2022

- 18<sup>fed</sup> Plant Mewn Angen. Cefnogi a gwisgo dillad eich hun.

## Rhagfyr 2022

- 9<sup>fed</sup> Diwrnod Siwmpwr Ysgol ar gyfer Achub Plant. Cefnogi a gwisgo siwmpwr Nadolig neu beth am addurno hen grys?  
12<sup>fed</sup> Wythnos Cyngherddau Nadolig. Croesawir rieni / ofalwyr. Manylion i ddilyn.  
21<sup>ain</sup> Cinio Nadolig i ddisgyblion.  
23<sup>ain</sup> Diwrnod olaf y tymor. Nadolig Llawn!

## Ionawr 2023

- 9<sup>fed</sup> Pawb yn dychwelyd i'r ysgol.  
17<sup>eg</sup> Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 yn YGG Llangynwyd  
25<sup>ain</sup> Dydd Santes Dwynwen

## Chwefror 2023

- 17<sup>eg</sup> Diwrnod HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion ar gyfer hyfforddiant a datblygiad staff)  
20<sup>fed</sup> Hanner Tymor (20/02/23 – 24/02/23)

## Mawrth 2023

- 1<sup>af</sup> Dathliad Dydd Gwyl Dewi – plant i wisgo gwisg traddodiadaol Cymreig neu grys rygbi / top coch  
3<sup>ydd</sup> Diwrnod y Llyfr. Manylion i ddilyn ond ni fydd angen gwisg – gweithgareddau ar lawr dosbarth.  
27<sup>ain</sup> + 29<sup>ain</sup> Nosweithiau Rhieni ar-lein. Manylion i ddilyn.  
29<sup>ain</sup> Dosbarth Derbyn – Gorymdaith Hetiau Pasg (1.30yp). Croesawir rieni / ofalwyr . Manylion i ddilyn.  
30<sup>ain</sup> Dosbarth Meithrin – Gorymdaith Hetiau Pasg (1.30yp). Croesawir rieni / ofalwyr . Manylion i ddilyn.  
31<sup>ain</sup> Diwrnod Olaf y Tymor. Pasg Hapus!

## Ebrill 2023

- 17<sup>eg</sup> Pawb yn dychwelyd i'r ysgol.

## Mai 2023

- 29<sup>ain</sup> Hanner Tymor (29/05/23 – 02/05/23) / Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin

## Mehefin 2023

- 5<sup>ed</sup> Pawb yn dychwelyd i'r ysgol. Wythnos Ysgolion Iach. Bydd angen gwisg / cit ymarfer corff. Manylion i ddilyn.  
12<sup>fed</sup> Wythnos Mabolgampau. Bydd angen gwisg / cit ymarfer corff. Manylion i ddilyn.  
16<sup>eg</sup> – 18<sup>fed</sup> Taith Preswyl Blwyddyn 5 – Gwersyll yr Urdd, Llangrannog  
26<sup>ain</sup> Diwrnod HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion ar gyfer hyfforddiant a datblygiad staff)  
29<sup>ain</sup> + 30<sup>ain</sup> Diwrnodau Pontio Blwyddyn 5 yn YGG Llangynwyd

## Gorffennaf 2023

- 7<sup>fed</sup> Diwrnod Pontion Blwyddyn 6 yn YGG Llangynwyd / Adroddiadau Blynyddol i Rien  
14<sup>ain</sup> Dathliad Ymadawyr Blwyddyn 6 (2.00yp)  
19<sup>ain</sup> – 21<sup>ain</sup> Taith Preswyl Blwyddyn 6 – Canolfan yr Urdd, Bae Caerdydd  
21<sup>ain</sup> Diwrnod olaf y flwyddyn i ddisgyblion  
24<sup>ain</sup> Diwrnod HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion ar gyfer hyfforddiant a datblygiad staff)